# LEWIS, MOSES (fl. 1748-1800), cynghorwr Methodistaidd, ac Antinomiad

**Enw:** Moses Lewis
**Rhiant:** Arthur Lewis
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cynghorwr Methodistaidd, ac Antinomiad
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Gomer Morgan Roberts

mab Arthur Lewis o'r Fron, Brymbo, sir Ddinbych. Yr oedd yn un o sefydlwyr yr achos yn Adwy'r Clawdd, a ffodd Peter Williams i'w d ' ar ôl ei erlid yn 1748. Dechreuodd bregethu c. 1750. Ymlynai wrth blaid Howel Harris yn 1751, ond cefnodd arno yn fuan gan wrthod ymuno â'r 'Teulu' yn Nhrefeca. Coleddodd syniadau Antinomaidd a chafodd rai i'w ddilyn yn Nyffryn Clwyd ac Arfon. Enwir ef gyda Thomas Sheen a Thomas Meredith ac Antinomiaid amlwg eraill, a chyfeirir ato yn 1763 fel un a bregethai athrawiaeth y brodyr Relly. Cefnodd yn gyfan gwbl ar grefydd yn niwedd ei oes; bu farw mewn henaint c. 1800.

## Awdur

**Y Parchedig Gomer Morgan Roberts**, (1904 - 1993)

## Ffynonellau


Robert Jones (Rhoslan), *Drych yr Amseroedd* (Trefriw 1820), 136

*Methodistiaeth Cymru* (1851–6), i, 149, 409

W. Hobley, *Hanes Methodistiaeth Arfon*, ii, 135

*Y Cymmrodor*, xlv, 68

E. P. Jones, *Methodistiaeth Galfinaidd Dinbych, 1735–1909* (1936), 55

H. Llew Williams, *Hanes y Methodistiaid Calfinaidd yn Adwy'r Clawdd* (1947), 29, 33, 39


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733999


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu